AGGCC
CSSIW
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

# Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014–15

## Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Gâr

Hydref 2015

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif feysydd lle bu cynnydd a'r meysydd lle mae angen gwella yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Gâr ar gyfer y flwyddyn 2014–15

OGL © Hawlfraint y Goron 2015 WG26666 ISBN digidol 978 1 4734 4882 7

# Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2014-2015

**Awdurdod Lleol:** **Cyngor Sir Caerfyrddin**

**Mae'r adroddiad hwn yn nodi gwerthusiad AGGCC o berfformiad Cyngor Sir Caerfyrddin wrth gyflenwi ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.**

## 1. Crynodeb

1.1. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi parhau i ddarparu gwasanaethau gofal cartref i blant ac oedolion yn effeithiol drwy gydol y flwyddyn, ac mae nifer o ddangosyddion perfformiad wedi dangos gwelliannau. Mae'r cyngor yn parhau i adeiladu ar ei weledigaeth o gynnal gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar gyfer pobl hŷn, gyda thystiolaeth i ategu bod pobl yn derbyn cymorth effeithiol i aros yn eu cymunedau. Cryfhawyd datblygiad gwasanaethau ataliol yn y gwasanaethau plant, ac mae nifer o wasanaethau allweddol wedi bod yn gweithredu dull amlasiantaeth mwy effeithiol o weithio.

1.2. Mae cynllun gwella blynyddol y cyngor ar gyfer 2015-2016 yn gosod gweledigaeth y cyngor ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol sy'n *"galluogi pobl i fyw bywydau iach a bodlon drwy weithio ynghyd i adeiladu cymunedau cryf, dwyieithog a chynaliadwy."* Mae'r cyngor yn cydnabod yr heriau sydd o'i flaen wrth fodloni'r galw am wasanaethau o fewn cyfyngiadau ariannol. Mae wedi amlinellu sut y bydd yn gwireddu'r gostyngiad o £45 miliwn yn ei gyllideb dros y tair blynedd nesaf, drwy roi blaenoriaeth i ddull integredig o gyflenwi gwasanaethau. Mae'r cyngor wedi datblygu Strategaeth Gymunedol Integredig sy'n gosod y weledigaeth hon, ac yn sicrhau bod cynlluniau busnes gwasanaethau plant ac oedolion yn cyd-fynd â strategaeth gyfan y cyngor.

1.3. Yn ystod y flwyddyn, bu newidiadau i uwch-swyddogion wrth i'r cyfarwyddwr statudol blaenorol ymddeol, ac wrth i ddau bennaeth gofal cymdeithasol i oedolion ymddeol hefyd. Mae'r uwch-swyddogion hyn wedi cael effaith sylweddol ar ddatblygiad gwasanaethau yn y cyngor ac wedi gadael gwaddol cadarnhaol i'w holynwyr. Dechreuodd cyfarwyddwr statudol newydd ym mis Tachwedd, ac mae'n amlwg ei fod wedi parhau i sicrhau bod blaenoriaethau strategol yn cael eu cyflenwi'n effeithiol. Mae adroddiad blynyddol y cyfarwyddwr yn rhoi disgrifiad cywir o berfformiad y cyngor ac yn gosod ei flaenoriaethau strategol ar gyfer y deuddeg mis nesaf. Nod allweddol yw gwella perfformiad ymhellach gyda mesurau newydd er mwyn mesur perfformiad yn effeithiol a defnyddio data i wella perfformiad. Mae

swyddogion gwasanaethau oedolion a phlant y cyngor yn parhau i ddarparu arweinyddiaeth effeithiol. Maen nhw'n eglur ynghylch eu blaenoriaethau, ac mae perfformiad y cyngor yn parhau i fod ymhlith y gorau yng Nghymru.

## 2. Yr ymateb i'r meysydd i'w gwella a nodwyd y llynedd

| Gwelliant a nodwyd y llynedd | Cynnydd yn 2014–2015 |
|---|---|
| Datblygiad gwasanaethau i bobl ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistig | Mae'r cyngor wedi cryfhau'r gwasanaeth o fewn gwasanaethau plant drwy gynyddu'r cymorth a gynigir o fewn y gwasanaeth cymorth preswyl. Mae angen gwaith pellach i sicrhau bod gan bobl fynediad at ystod o wasanaethau. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i wasanaethau pontio. |
| Cryfhau'r strategaeth ataliol ar gyfer teuluoedd sydd â phlant ag anawsterau emosiynol ac ymddygiad heriol | Gall teuluoedd gael mynediad bellach at seicolegydd drwy'r Tîm o Amgylch y Teulu. |
| Gwella cyfraddau oedi cyn trosglwyddo yng ngofal cymdeithasol i oedolion | Mae'r cyngor wedi gwella'r gyfradd ychydig o ran oedi cyn trosglwyddo gofal. |
| Datblygu trefniadau gwell ar gyfer comisiynu gwasanaethau gofal cartref yng ngwasanaethau i oedolion | Cynhaliwyd adolygiad o fewn y cyngor o drefniadau comisiynu a chontractio gofal cartref. Y bwriad yw y bydd hyn yn gwella mynediad ac yn cynyddu capasiti'r cyngor ar gyfer gofal cartref. |
| Gwella'r nifer o adolygiadau ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion | Bu gwelliannau yn y perfformiad yn ystod y flwyddyn. |
| Sicrhau bod atgyfeiriadau i wasanaethau plant yn cael eu gwerthuso i sicrhau bod trothwyon yn addas ac yn ymatebol | Mae'r cyngor wedi comisiynu gwerthusiad allanol o'r broses atgyfeirio, ac maen nhw'n parhau i fonitro penderfyniadau ar drothwyon drwy'r broses sicrhau ansawdd. |
| Adolygiadau statudol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal | Mae'r cyngor wedi gwella ei berfformiad yn y maes hwn. |
| Adolygiadau gofal maeth | Nodwyd bod gwelliannau wedi bod o ran perfformiad. |
| Cynnwys TG o fewn | Mae'r cyngor yn rhan o brosiect caffael |

| | |
|---|---|
| gwasanaethau i oedolion er mwyn cefnogi gwaith amlasiantaethol effeithiol | gwybodaeth gofal cymunedol ac yn gweithio gyda'i bartneriaid i weithredu system integredig o reoli achosion |
| Datblygu mynediad unedig at wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anableddau | Mae'r cyngor yn unioni ei ddull o ddyrannu adnoddau er mwyn cryfhau mynediad ar gyfer yr holl blant sydd mewn angen. |
| Mynediad gwell i wasanaethau iechyd meddwl | Mae'r cyngor ar hyn o bryd yn adolygu trefniadau gweithio ac yn edrych ar ffyrdd o wella gwaith amlasiantaethol. |
| Diogelu oedolion | Mae'r cyngor ar hyn o bryd yn adolygu'r trefniadau, ond mae problemau o hyd ynghylch cysondeb o ran trothwyon a'r broses o wneud penderfyniadau. |
| Adolygu'r trefniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac sy'n ymddwyn mewn ffordd beryglus | Mae trefniadau cryfach ar waith, a chaiff asesiadau eu cynnal a'u monitro gan uwch-reolwyr a phennaeth y gwasanaeth. Datblygir panel rheoli risg er mwyn rheoli'r achosion o blant unigol sy'n ymddwyn mewn ffordd beryglus. |
| Mae angen cryfhau'r broses o leoli a pharu plant sy'n derbyn gofal | Datblygwyd a gweithredwyd strategaeth leoli. |
| Llenwi swyddi gwag yn brydlon o fewn amserlen er mwyn sicrhau'r amhariad lleiaf i wasanaethau | Adroddir bod amserlenni wedi gwella, gyda rheolwyr yn cynllunio'n fwy effeithiol er mwyn sicrhau y tynnir sylw at swyddi gwag er mwyn osgoi oedi diangen. |
| Cynnal sefydlogrwydd y gofal cymdeithasol i oedolion wrth i'r cyfarwyddwr a phennaeth y gwasanaeth ymddeol | Cafodd hyn ei gynnal a'i gryfhau. |

## 3. Ymweliadau ac arolygiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn

3.1. Mae ymweliadau safle yn rhoi cyfle i AGGCC siarad â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u teuluoedd, a'r staff sy'n rheoli ac yn gweithio yn y gwasanaethau hynny. Yn ystod 2014-2015, ymwelwyd â'r safleoedd canlynol:

- Gwasanaethau dydd i bobl ag anableddau dysgu
- Gwasanaeth ymadfer
- Timau amlddisgyblaethol cymunedol
- Gwasanaethau rhyddhau o ysbyty; tîm ymateb cyflym
- Cartref defnyddiwr gwasanaeth
- Gwasanaethau dementia
- Canolfan gwasanaethau asesu amlasiantaethol (MASH)
- Gwasanaeth Dechrau'n Deg
- Y tîm o amgylch y teulu

Hefyd, ymwelodd y prif arolygydd a'r rheolwr ardal â'r gwasanaethau canlynol:

- Gwasanaeth lleoli oedolion ‘Rhannu Bywydau Gorllewin Cymru’
- Gwasanaeth Crossroads

3.2. Gwnaeth AGGCC hefyd gwrdd ag uwch-swyddogion y cyngor drwy'r flwyddyn er mwyn adolygu perfformiad gwasanaethau cymdeithasol ac i drafod cynnydd mewn perthynas â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn y gwerthusiad o berfformiad a gynhaliwyd y llynedd. Roedd y cyngor yn barod iawn i ymwneud ag AGGCC, a rhoesant rwydd hynt i AGGCC gynnal ymweliadau safle.

## 4. Meysydd y bydd AGGCC yn gwneud gwaith dilynol arnynt y flwyddyn nesaf

4.1. Nodwyd nifer o feysydd penodol i'w gwella yng nghorff yr adroddiad hwn. Bydd cynnydd y cyngor mewn perthynas â'r rhain yn cael ei drafod gyda'r cyngor mewn cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd yn y flwyddyn sydd i ddod. Meysydd penodol i'w dilyn fydd:

- Parhau i gyflwyno newidiadau i'r gwasanaeth er mwyn paratoi ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Y gwaith cydweithredol a gynhaliwyd mewn perthynas â grŵp cydweithredol iechyd a gofal cymdeithasol canolbarth a gorllewin Cymru
- Diogelu oedolion
- Rhagor o ddarpariaeth gofal ychwanegol yng ngwasanaethau oedolion
- Uned plant a theulu
- Opsiynau tai ar gyfer pobl sy’n gadael gofal
- Ymweliad dilynol â'r gwasanaeth pontio
- Asesiadau gofalwyr

## 5. Cynllun arolygu ac adolygu AGGCC ar gyfer 2015-2016

5.1. Mae AGGCC hefyd yn cynnal yr arolygiadau thematig canlynol o wasanaethau yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Efallai y bydd Sir Gaerfyrddin yn cael ei dewis ar gyfer gwaith maes:

- Adolygiad cenedlaethol o ofal cartref

- Adolygiad cenedlaethol o wasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu

- Adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

## 6. I ba raddau mae’r profiadau a’r canlyniadau ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth yn gwella eu lles?

### <u>Oedolion</u>

### Trosolwg

6.1. Mae'r cyngor yn parhau i weithio'n effeithiol gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda drwy gytundeb Adran 33, ac yn edrych i gryfhau'r trefniadau hyn drwy gyfuno cyllidebau ar gyfer gwasanaethau cymunedol i bobl hŷn. Fel yn achos cynghorau eraill yng Nghymru, mae Sir Gaerfyrddin yn wynebu heriau mawr wrth fodloni anghenion poblogaeth sy'n heneiddio, gyda thros draean o'r bobl yn 65 oed a throsodd, a 18,500 dros 75 oed. Disgwylir i'r ffigur hwn dyfu gan 18% erbyn 2020. I helpu i fynd i'r afael â'r heriau sylweddol hyn, bydd y cyngor yn cyhoeddi strategaeth pobl hŷn yn yr hydref a fydd yn gosod blaenoriaethau'r cyngor. Bydd AGGCC yn monitro cynnydd y ddogfen honno a'r canlyniadau i bobl.

6.2. Gwnaed gwelliannau wrth gyflawni targedau yn ystod y flwyddyn, er y cynnydd yn y nifer o bobl sy'n cael mynediad i wasanaethau. Gwelliant pwysig yw'r gostyngiad yn yr amser cyfartaledd rhwng atgyfeirio a dod i gyswllt cyntaf, o bron i wyth diwrnod i ychydig dros bedwar. Nodwyd gwelliannau pellach wrth adolygu cynlluniau gofal wrth i 2,581 o adolygiadau gael eu cynnal, a chynnydd o 611 (32%) yn yr adolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn. Mae hwn yn llwyddiant sylweddol, ond dylai barhau i fod yn faes blaenoriaeth i'r cyngor i sicrhau bod trosolwg effeithiol o'r drefn o gynllunio gofal i oedolion. Roedd arolygiadau AGGCC o gartrefi gofal wedi canfod gwelliannau o ran cynllunio ac adolygu gofal, gyda phwyslais cliriach ar sicrhau bod cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn a bod y gwasanaeth yn dal i fodloni anghenion asesedig pobl.

6.3. Mae'r cyngor yn parhau i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd drwy amrywiol ffyrdd, ac mae ganddo gynrychiolaeth gref ar fforwm y gofalwyr. Bu cynnydd eleni yn y bobl a ddefnyddiodd y cynllun taliadau uniongyrchol, gan ddangos ymrwymiad y cyngor i annog a chynorthwyo pobl i gymryd rheolaeth o'r cymorth sydd ei angen arnynt. Mae'r cyngor yn parhau i roi cefnogaeth dda i fforwm y gofalwyr. Dangoswyd mewn cyfarfod o'r fforwm hwn, a hwyluswyd gan Crossroads Care, bod gofalwyr yn grŵp gweithgar a chefnogol sy'n eirioli'n dda ar ran eu teuluoedd. Fodd bynnag, mynegodd y grŵp rai materion ynghylch prydlondeb asesiadau gofalwyr. Trafodwyd y mater hwn ymhellach gyda'r cyngor, ac maent wedi rhoi proses newydd ar waith i sicrhau ymateb mwy llyfn ac amserol.

6.4. Mae'r cyngor wedi adolygu ac edrych ar ffyrdd gwell o weithio er mwyn sicrhau bod y broses ddiogelu yn cael ei rheoli'n briodol, yn unol â chanllawiau Mewn Dwylo Diogel. Parhaodd pryderon sylweddol drwy gydol y flwyddyn, fodd bynnag, o ran gweithredu trothwyon a phrydlondeb penderfyniadau. Er bod sicrwydd wedi'i roi i'r cyngor a'i fod wrthi'n ail-ddylunio'r broses ddiogelu, mae hyn yn parhau'n bryder, a bydd AGGCC yn parhau i'w fonitro. Mae'n bosibl yr hoffai bwrdd diogelu oedolion Sir Gaerfyrddin sicrhau ei hun o'r prosesau diogelu oedolion a sicrhau ei fod yn fodlon ar y trefniadau sydd ar waith.

6.5. O ganlyniad i ddyfarniad yng Ngoruchaf Lys y DU ym mis Mawrth 2014, yn achos Gorllewin Swydd Gaer, caiff trothwyon uwch eu gweithredu pan fo hawliau dynol pobl yn cael eu cyfyngu dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Mae hyn wedi arwain at gynnydd mawr o ran gweithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ledled cynghorau Cymru. Yn 2013-2014, prosesodd y cyngor 57 cais; yn 2014-2015, maen nhw wedi derbyn 856 cais. Wrth fynd i'r afael â'r cynnydd sylweddol hwn, mae'r cyngor wedi cynyddu'r nifer o aseswyr budd pennaf ac wedi rhoi proses rheoli risg ar waith, a gymeradwywyd gan

bwyllgor craffu iechyd a gofal cymdeithasol.

6.6. Wynebodd y cyngor rai anawsterau yn ystod y flwyddyn wrth gyflenwi ymarferydd iechyd meddwl i oedolion, 24 awr, yn benodol wrth ddarparu amserlen wrth gefn ar gyfer cyfnodau y tu allan i oriau. Er bod y pryderon hyn wedi cael eu datrys drwy wasanaeth gwell, mae angen i'r cyngor barhau i'w monitro i sicrhau bod gwasanaeth cyson ac ymatebol ar gael ar gyfer y grŵp bregus hwn.

6.7. Wrth ymweld â gwasanaeth lleoli oedolion ‘Rhannu Bywydau Gorllewin Cymru’, fe'n hysbyswyd bod hwn yn cael ei ystyried yn wasanaeth gwerthfawr sy'n cael ei redeg yn dda, gan ddarparu ystod eang o gyfleoedd cadarnhaol a chyfoethogol i bobl sydd ag anableddau dysgu ac anawsterau iechyd meddwl. Roedd y staff yn amlwg yn ymroi i ddarparu gwasanaeth effeithiol, ac roedd gofalwyr yn canmol yn fawr y gefnogaeth a gawsant.

**Blaenoriaethau cenedlaethol allweddol**

**Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar**

6.8. Mae gwasanaethau i bobl â dementia wedi parhau i wella, gyda'r strategaeth dementia Dyfodol Cadarnhaol a menter gymunedol Pontyberem yn llywio datblygiadau i wasanaethau ledled y cymunedau. Mae pobl hefyd yn elwa ar ddiagnosis gwell a mynediad gwell at wasanaethau. Mae'r Gymdeithas Alzheimer yn cynnig ystod o wasanaethau i bobl a'u teuluoedd yn Sir Gaerfyrddin. Wrth ymweld â'r gwasanaeth, cadarnhawyd bod hwn yn wasanaeth sy'n cael ei reoli'n dda ac sydd â chysylltiadau da â gwasanaethau cymdeithasol a Bwrdd Iechyd Hywel Dda, gan sicrhau bod dull cydgysylltiedig o gyflenwi gwasanaethau dementia.

6.9. Mae'r gwasanaeth ail-alluogi yn parhau i ddangos bod pobl yn elwa ar ymyrraeth ac yn adennill eu hannibyniaeth, am nad oes angen unrhyw wasanaethau cymorth pellach ar 45% o'r bobl. Drwy eu trefniadau ar y cyd, mae'r cyngor yn cynnig Hyfforddiant Sadrwydd Osgo, gan gynnwys rhaglen cryfder a chydbwysedd ‘Otago’. Cynigir y rhaglen hon yng nghartrefi pobl, gan anelu at wella cryfder pobl ar ôl iddynt fod mewn ysbyty a'u cynorthwyo i fod yn annibynnol. Wrth drafod â defnyddiwr gwasanaeth ac arsylwi ar y rhaglen yn cael ei chyflwyno, cadarnhawyd bod y gwasanaeth wedi cyfrannu at eu cynorthwyo i ddychwelyd adref yn annibynnol.

6.10. Er bod y cyngor yn parhau i gyflenwi gwasanaethau drwy ei ethos o gefnogi a chynnal pobl i fyw bywydau llawn yn y gymuned, bu cynnydd yn ystod y flwyddyn yn y nifer o bobl sy'n symud i leoliadau preswyl.

Dywed y cyngor fod hyn i'w briodoli i gynnydd yn y nifer o bobl ag anghenion cymhleth, na ellir mo'u cynorthwyo yn y cartref. Ar hyn o bryd, mae’r cyngor yn symud at fodelau gofal newydd ac yn datgomisiynu ei wasanaethau preswyl traddodiadol, ar y cyd â'rFamilyHousingAssociation. Bydd y model newydd o dai gofal ychwanegol yn sicrhau bod cynaliadwyedd i'r gwasanaeth ac yn darparu cyfleusterau gwell gyda ffordd o fyw yn null fflat fawr. Bydd parhau i fodloni anghenion cymhleth pobl yn her i'r cyngor yn y dyfodol, fodd bynnag. Bydd angen i'r cyngor feddwl sut bydd yn monitro ansawdd y gwasanaethau hyn, am nad ydynt yn dod dan yr un fframwaith rheoleiddio â chartrefi gofal cofrestredig, ac felly nid ydynt yn cynnig yr un radd o ddiogelwch i bobl.

6.11. Wrth ymweld â chanolfannau dydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu ac anawsterau iechyd meddwl, cadarnhawyd bod pobl ar y cyfan yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dyddiol ystyrlon a bod staff yn dangos ymrwymiad i ddarparu ystod o gyfleoedd yn y canolfannau. Ailstrwythurwyd gwasanaethau dydd, a oedd yn cynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid, a chynhyrchodd cynllun cydweithredol iechyd a gofal cymdeithasol canolbarth a gorllewin Cymru “ddatganiad o fwriad”. Wrth ddatblygu'r gwasanaeth hwn, mae angen i'r cyngor ystyried sut y bydd modd iddo feithrin partneriaethau gwell er mwyn cynyddu'r nifer o bobl sy'n defnyddio cyfleoedd cyflogaeth.

**Integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn ag anghenion cymhleth**

6.12. Mae'r cyngor yn parhau i fod mewn safle dda ar gyfer darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i bobl hŷn ag anghenion cymhleth. Mae gwasanaethau'n cyd-fynd yn dda ac yn sicrhau bod dull integredig o gyflenwi gwasanaethau drwy gytundeb Adran 33 gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Cynhaliwyd adolygiad o dderbyniadau ysbyty a'r broses ryddhau o ysbyty. Mae pwyslais ar atal derbyniadau ysbyty ac, ar gyfer y rheiny sydd wir angen mynd i'r ysbyty, pwyslais go iawn ar gael pobl adref gyda chymorth cymunedol ar waith. Sefydlwyd gwasanaeth gofal cartref, ymateb cyflym, er mwyn ymateb ar unwaith i atal derbyniadau ysbyty ac i hwyluso'r drefn o ryddhau pobl o'r ysbyty'n gynnar. Bu cynnydd mawr yn y gwasanaeth hwn, gyda chynnydd o 70% mewn cyfnod o bum mis.

6.13. Wrth gynnal ymweliad safle â’r gwasanaeth trosglwyddo gofal, cyngor a chyswllt (TOCALS) yn Ysbyty'r Tywysog Philip, gwelwyd bod ymrwymiad i weithio mewn modd integredig sy'n cwmpasu'r model meddygol a gofal cymdeithasol. Wrth drafod â gweithwyr proffesiynol, nodwyd amryw o ddulliau arloesol. Nodwyd bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i ddefnyddio adnoddau cymunedol a bod y cartref wir yn ddewis

amgen i ofal mewn ysbyty. Trwy'r dull integredig a phwrpasol hwn, bu gwelliant bach yng ngraddfa oedi trosglwyddiadau gofal y cyngor, o 6.6% ar gyfer y flwyddyn 2013-2014 i 6.2% ar gyfer y flwyddyn 2014-2015.

6.14. Defnyddiwyd cronfa gofal canolraddol Llywodraeth Cymru er mwyn cryfhau gwasanaethau cymorth aml-asiantaeth ac mae’r tri thîm amlasiantaethol, cymunedol yn parhau i weithio’n dda ar lawr gwlad. Mae gwaith y timau'n canolbwyntio ar asesiadau holistaidd ac ar ddefnyddio gwasanaethau cymorth cymunedol, sy'n cael eu hwyluso drwy gyfrwng cynllun brocer y trydydd sector. Y nod yw adeiladu gwytnwch y gymuned, lleihau dibyniaeth, a gwella annibyniaeth. Wrth drafod yn ystod ymweliad safle, cadarnhawyd bod y dull hwn yn cael effaith gadarnhaol. Roedd y staff yn ymroddedig i waith amlddisgyblaethol, o fewn dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau a datrysiadau. Roedd yn glir eu bod yn ymroddedig i ddarparu pecynnau gofal unigol, cydgysylltiedig, er mwyn gwella lles cyffredinol pobl a hwyluso annibyniaeth yn eu cymuned.

**Meysydd o gynnydd**

- Gwelliannau wrth fodloni'r dangosyddion perfformiad
- Trefniadau amlasiantaethol mwy effeithiol
- Pwyslais ar ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Gwelliannau wrth i bobl ddefnyddio'r cynllun taliadau uniongyrchol
- Gwasanaethau gofal dementia
- Datblygiad gwasanaethau gofal dydd
- Proses rhyddhau o ysbyty

**Meysydd i'w gwella**

- Diogelu oedolion
- Parhau i wella'r cyfleoedd i bobl sy'n mynychu gwasanaethau gofal dydd i gael mynediad at swyddi.

## **Plant a phobl ifanc**

### Trosolwg

6.15. Mae gwasanaethau plant yn parhau i elwa ar arweinyddiaeth strategol a gweithredol gref ac iddynt gynlluniau clir sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau ataliol i gynorthwyo teuluoedd yn eu cymunedau. Un o gryfderau'r cyngor yw bod gofal cymdeithasol i blant ac addysg wedi'u cysoni, gyda chyfarwyddwr corfforaethol i blant. Mae hyn wedi galluogi'r cyngor i ddatblygu ac integreiddio gwasanaethau ataliol arloesol. Mae'r cyngor yn sicrhau bod twf a datblygiad yn ei wasanaethau ataliol er mwyn sicrhau nad yw ymyrraeth statudol yn digwydd ond pan fo angen. Mae gwasanaethau statudol hefyd yn cael eu hailfodelu i wella'u trefniadau diogelu ar gyfer plant, ac maen nhw'n gweithio mewn modd mwy cydgysylltiedig a threfnus fel bod penderfyniadau'n amserol ac ymatebol. Mae dangosyddion perfformiad ar draws gwasanaethau plant yn dangos gwelliannau parhaus er gwaethaf cynnydd yn y nifer o blant sy'n cael eu hatgyfeirio.

6.16. Ceir prosesau effeithiol ar waith ar gyfer sgrinio cychwynnol ac asesu plant, er gwaethaf cynnydd mewn cyfraddau atgyfeirio. Bu cynnydd yng ngraddfa'r atgyfeiriadau i dîm asesu'r cyngor dros gyfnod o bum mlynedd. Yn 2010-2011, bu 1,132 o atgyfeiriadau, gyda gostyngiad bychan yn 2012-2013 pan fu 1,090. Fodd bynnag, dros y ddwy flynedd ddiwethaf cynyddodd y ffigurau, ac atgyfeiriwyd 1,572 yn 2014-2015. Aeth 98% o atgyfeiriadau i'r adran yn eu blaen i gael asesiad cychwynnol. Er gwaetha'r cynnydd, mae'r cyngor yn parhau i berfformio'n dda ar ei broses gychwynnol o sgrinio ac asesu, wrth i 99.5% o atgyfeiriadau dderbyn penderfyniad o fewn un diwrnod gwaith. O'r atgyfeiriadau hyn, cwblhawyd ychydig dros 86% o asesiadau cychwynnol o fewn saith diwrnod gwaith, sy'n gynnydd bychan ers 2010. Nodwyd bod cynnydd cadarnhaol wedi bod hefyd o ran asesiadau craidd, a chwblhawyd ychydig dros 90% ohonynt o fewn 35 diwrnod, o gymharu â 86% ar gyfer 2013-2014. Fodd bynnag, nodwyd bod cynnydd wedi bod eleni o ran atgyfeiriadau na aeth ymlaen i gael eu hasesu'n gychwynnol, o tua 2% i ychydig dros 4%. Mae angen i fesurau sicrhau ansawdd barhau er mwyn sicrhau bod trothwyon a phenderfyniadau priodol yn cael eu gweithredu.

6.17. Cynhaliwyd cynllun peilot ar gyfer canolfan gwasanaethau amlasiantaethol (MASH). Mae’r ganolfan wedi'i lleoli ym mhencadlys Heddlu Dyfed Powys. Ar sail data perfformiad ac ymweliad â chyd-leoliad y gwasanaeth hwn, mae'n amlwg ei fod yn ymdrin ag atgyfeiriadau diogelu mewn modd amserol, cyson. Trwy fynediad uniongyrchol at system gofnodi electronig asiantaethau, gellir gwneud penderfyniadau diogelu bron ar unwaith. Mae gan y tîm MASH

wybodaeth a phrofiad eang yn y maes, ynghyd â dealltwriaeth o ddemograffeg Sir Gaerfyrddin. Mae hyn yn sicrhau bod asesiadau cychwynnol yn seiliedig ar amrywiaeth o wybodaeth o ffynonellau gwahanol a bod risg yn cael ei reoli trwy ystyried yr holl wybodaeth berthnasol.

6.18. Nodwyd gwelliannau ym mhroses cynadleddau diogelu plant wrth i 99.5% o gynadleddau cychwynnol ddigwydd o fewn 15 diwrnod gwaith. Mae hyn yn gynnydd oddi ar y llynedd, pan oedd y ganran yn 97%, ac adolygiadau cynadleddau o gwmpas 99%. Rheolir cyfarfodydd grwpiau craidd yn effeithiol hefyd wrth i 92% o gyfarfodydd ddigwydd o fewn deg diwrnod, yn ôl y gofyn, sy'n welliant amlwg oddi ar y llynedd pan oedd y ganran yn 88%.

6.19. Mae trefniadau gwell ar waith ar gyfer ymgynghori â phlant a phobl ifanc, ac mae'r cyngor wedi datblygu contract gyda Tros Gynnal ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed. Adroddir bod y gwasanaeth hwn wedi cael ei groesawu'n fawr a bod cyfraddau atgyfeirio wedi cynyddu. Mae gwasanaeth y gofalwyr ifanc yn parhau i ddatblygu. Mae'r grŵp hwn o bobl ifanc wrthi'n codi ymwybyddiaeth drwy hyfforddiant a thrwy ddatblygu siarter gofalwyr ifanc. Mae bwrdd diogelu rhanbarthol y canolbarth a'r gorllewin (CYSUR) wedi datblygu bwrdd diogelu iau a rhwydwaith diogelu sy'n tynnu cenedlaethau ynghyd.Mae gwasanaethcyfranogi'r cyngor wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Voicesfrom Care er mwyn cynnwys plant a phobl ifanc yn llawn yn y broses o wneud penderfyniadau a datblygu'r gwasanaeth.

6.20. Mae gwasanaethau i blant anabl a'u teuluoedd yn parhau i gael eu datblygu. Mae'r cyngor yn symud yn ei flaen gyda datblygu'r gwasanaeth pontio ac yn bwriadu sefydlu grŵp pontio gweithredol er mwyn sicrhau bod y broses gynllunio'n effeithiol wrth i blant a phobl ifanc symud rhwng gwasanaethau. Hefyd, mae'r cyngor wedi gweithredu ar argymhelliad dogfen *Unlocking the Potential.* Fodd bynnag, nodwyd bod gostyngiad bychan wedi bod yn y nifer o adolygiadau o gynlluniau plentyn mewn angen, o oddeutu 85% i ychydig dros 82%. Mae angen i'r cyngor sicrhau bod trosolwg effeithiol o'r achosion hyn, yn arbennig y rheiny sy'n camu i lawr o'r gofrestr amddiffyn plant.

**Blaenoriaethau cenedlaethol allweddol**

**Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar**

6.21. Mae'r cyngor yn parhau i adeiladu a datblygu ei strategaethau ataliol, ac wrth ymweld â'r gwasanaethau hyn, cadarnhawyd bod trefniadau

effeithiol ac arloesol ar waith, gyda phwyslais arbennig ar ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy. Mae'r cyngor wedi adolygu'r gwasanaethau a ddarperir dan fentrau Teuluoedd yn Gyntaf er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni'r fanyleb ofynnol ac yn cyd-fynd â strategaeth y cyngor ar gyfer ymyrryd yn gynnar.

6.22. Wrth ymweld â gwasanaeth Dechrau'n Deg, cadarnhawyd bod hwn yn wasanaeth sy'n cael ei reoli'n dda, a bod rheolwyr yn rhoi arweiniad strategol cadarn gyda phwyslais clir ar waith amlddisgyblaethol effeithiol. Mae'r gwasanaeth wedi ehangu dros y deuddeg mis diwethaf, pan sefydlwyd naw ardal newydd, ac mae 17 o gymunedau Dechrau'n Deg erbyn hyn. Cryfhaodd hyn yn fawr y gwasanaethau ataliol sydd ar gael i deuluoedd, yn unol â strategaeth tlodi plant Llywodraeth Cymru. Ymhlith y datblygiadau allweddol, mae cryfhau'r rhaglenni a'r cymorth i deuluoedd â phlant dan flwydd oed, ac mae cysondeb gwell bellach rhwng ysgolion a gwasanaeth Dechrau'n Deg.

6.23. Mae gan deuluoedd fynediad at ystod eang o wasanaethau cymorth, ond adroddwyd nad oes digon o rieni'n gwneud defnydd o lwybr gofal iechyd meddwl er mwyn mynd i'r afael â'u hanghenion emosiynol. Argymhellir bod hyn yn derbyn sylw fel rhan o gynllun cydweithredol rhanbarth y canolbarth a'r gorllewin. Mae canlyniadau cadarnhaol i deuluoedd a phlant sydd wedi derbyn y gwasanaeth hwn, a thystiolaeth bod llwybr y plentyn drwy'r gwasanaeth yn cael ei adolygu. Er bod y cyngor yn ystyried datblygu mesurau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, un o flaenoriaethau'r bwrdd rheoli yw sicrhau bod data perfformiad yn nodi'r gwahaniaeth a wneir gan y gwasanaeth i deuluoedd yn Sir Gaerfyrddin.

6.24. Bu datblygu clinig mewn ysgol gynradd yn fenter newydd, gan ddarparu mynediad gwell i gymorth a chysylltiadau cymunedol. Addaswyd y broses atgyfeirio er mwyn creu un pwynt mynediad yn unig. Adroddodd swyddogion fod hyn yn gweithio'n dda, gydag ymatebion prydlon yn arwain at asesu amlasiantaethol. Er bod y dull holistaidd hwn o asesu yn gweithio'n dda, ni ddefnyddir dull asesu safonol o fesur esgeulustod. Dylai bwrdd diogelu canolbarth a gorllewin Cymru ystyried gweithredu dull asesu esgeulustod.

6.25. Mae gwasanaeth y tîm o amgylch y teulu yn cael ei gryfhau gan staff a benodwyd yn ddiweddar i gyflwyno'r model hwn ar draws y gwasanaethau ataliol, gan gynnwys pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed. Cynhaliwyd diwrnodau ymgynghori a datblygu gyda'r nod o wella'r broses bresennol. Adolygwyd a diweddarwyd fframwaith asesu'r teulu ar y cyd. Nodwyd bod dull y tîm o amgylch y teulu o weithio wedi arwain at rai canlyniadau cadarnhaol, ac wrth weithio'n bwrpasol ar y cyd â'r


gwasanaeth lles addysgol, mae cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion wedi gwella'n sylweddol yn y flwyddyn.

6.26. Mae'r cyngor wedi cryfhau ei wasanaethau ataliol ac yn datblygu model clir o gyflenwi gwasanaethau sy'n seiliedig ar ddull o ganolbwyntio ar ddatrysiadau a chryfderau, mewn partneriaeth â theuluoedd. Mae'n hanfodol bod teuluoedd yn ymwybodol o'r llwybrau atgyfeirio a bod gwasanaethau ataliol yn cyd-fynd â'i gilydd er mwyn osgoi dyblygu gwaith ac er mwyn cryfhau trefniadau gwaith amlasiantaethol.

**Plant sy'n derbyn gofal**

6.27. Gwnaeth y cyngor gynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion yr adolygiad cenedlaethol o blant sy'n derbyn gofal ac sy'n ymddwyn mewn modd cymhleth a pheryglus. Mae'r cyngor wedi datblygu nifer o strategaethau newydd i sicrhau bod prosesau gwell ar waith i reoli risgiau. Yn eu plith, mae trefniadau sicrhau ansawdd mwy effeithiol, a rhagor o drosolwg gan uwch-reolwyr i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu'n well gan y systemau sydd ar waith.

6.28. Mae gan y cyngor record dda o gadw plant sy'n derbyn gofal yn eu hawdurdod nhw, ac ar hyn o bryd mae pump o blant sydd ag anghenion cymhleth wedi'u gosod mewn lleoliadau preswyl y tu hwnt i'r sir. Fodd bynnag, nododd yr adolygiad cenedlaethol o blant sy'n derbyn gofal ac sy'n ymddwyn mewn modd cymhleth a pheryglus fod y penderfyniad i gadw plant o fewn y sir wedi arwain at symud y rheiny sydd ag anghenion cymhleth o un lle i'r llall, yn fynych. Nid yw hyn er budd pennaf y plant, ac mae'r cyngor wedi bod yn gweithio ar ddatblygu strategaeth leoli fwy effeithiol er mwyn gwella'r dewisiadau a rhoi sefydlogrwydd. Mae hwn yn parhau'n faes sy'n peri pryder wrth i ganran y rhai a symudodd i dri lleoliad neu fwy barhau'n uchel, a hynny ychydig dan 12%. Dylai hyn barhau'n bwyslais i'r cyngor er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu lleoli'n briodol a bod gan ofalwyr maeth y sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i gadw plant yn eu lleoliad. Gwnaed gwelliannau sylweddol o ran cadw plant sy'n derbyn gofal yn yr un ysgol yn ystod y flwyddyn, gyda 5.4% o blant yn symud ysgol unwaith neu fwy yn 2014-2015, o gymharu â 14.5% yn 2013-2014. Roedd nifer y plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan y cyngor wedi disgyn ychydig yn ystod y flwyddyn, o 251 yn 2013-2014 i 240 yn 2014-2015. Cyfradd y plant sy'n derbyn gofal yw 6.47fesul 1,000 o'r boblogaeth. Y cyfartaledd cenedlaethol yng Nghymru yw 8.82.




6.29. Bu rhai gwelliannau yn ystod y flwyddyn o ran cynllunio ac adolygu gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Cynyddodd yr adolygiadau a wnaed o 94% yn 2013-2014 i 95%. Nodwyd bod gwelliannau o ran ymweliadau statudol â phlant, ac mae tuedd o hyd tuag i fyny o ran drafftio cynlluniau addysg personol – bu cynnydd eto eleni, o ychydig dros 73% yn 2013-2014 i bron 86%. Ar y cyfan, mae canlyniadau plant sy'n derbyn gofal wedi gwella. Caiff hyn ei adlewyrchu mewn lefelau cyrhaeddiad uwch yn yr ysgol a chyfraddau presenoldeb gwell, sydd oll yn gysylltiedig â'r gwelliant hwn.

6.30. Ar y cyd â'r sector annibynnol, mae'r cyngor yn datblygu opsiynau gwell o ran tai ar gyfer pobl sy'n gadael gofal. Er gwaetha'r datblygiadau hyn, bu gostyngiad o ran y nifer o bobl sy'n gadael gofal y gwyddys eu bod mewn llety addas, di-argyfwng – o oddeutu 94% o bobl ifanc yn 2013-2014 i ychydig dros 88% yn 2014-2015. Nodwyd hefyd bod gostyngiad sylweddol wedi bod yn y nifer o bobl sy'n gadael gofal ac sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, o 87.5% yn 2013-2014 i bron 65% yn 2014-2015. Bwriad y cyngor yw adolygu'r trefniadau ar gyfer pobl sy'n gadael gofal, gan fod cynnydd ynddynt y flwyddyn nesaf. Wrth wneud hynny, rhaid iddynt sicrhau y cedwir trosolwg effeithiol ar y grŵp bregus hwn o bobl ifanc.

6.31. Y cyngor sydd â'r rôl arweiniol yn y gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol. Adroddir ei fod yn gweithio'n dda ac yn cynnig dewisiadau gwell o ran lleoliadau ledled y rhanbarth gyda'r adnoddau cyfun hyn. Mae polisïau a gweithdrefnau rhanbarthol wedi cael eu datblygu, ac mae tystiolaeth bod y dull cydweithiol hwn yn gweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu lleoli'n brydlon ac yn barhaol.

**Meysydd o gynnydd**

- Gwell trefniadau diogelu yn dilyn adolygiad o'r tîm asesu a derbyn, a gweithredu'r MASH.
- Mae'r cyngor yn datblygu cyfleoedd gwell i gynnwys plant a phobl ifanc yn natblygiadau'r gwasanaeth, er mwyn sicrhau bod safbwynt y plentyn yn cael ei ystyried
- Gwnaed datblygiadau pellach i'r gwasanaeth pontio
- Cynnydd yn nifer y cymunedau Dechrau'n Deg
- Integreiddio a chydgysylltu gwasanaethau ataliol i sicrhau bod gwaith amlasiantaethol effeithiol yn digwydd, gyda phwyslais ar ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy
- Trefniadau gwell ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd drwy weithredu dull o ganolbwyntio ar ddatrysiadau a chryfderau
- Canlyniadau gwell i blant sy'n derbyn gofal
- Gweithredu'r gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol

**Meysydd i'w gwella**

- Datblygu dulliau o fesur canlyniadau perfformiad ar gyfer gwasanaethau ataliol
- Mae'r cyngor yn sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud i sefydlogrwydd plant sy'n derbyn gofal yn eu lleoliadau, a bod hyn yn cael ei fonitro gan y grŵp rhianta corfforaethol
- Adolygu’r cymorth i bobl sy'n gadael gofal i sicrhau bod pobl ifanc yn derbyn cymorth priodol

## 7. Pa mor dda mae arweinyddiaeth, llywodraethiad a chyfeiriad y cyngor yn hyrwyddo gwelliant mewn canlyniadau a lles ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth

7.1. Fel rhan o'i arbedion, mae'r cyngor wedi edrych ar sut caiff gwasanaethau eu cyflenwi ar draws yr awdurdod ac wedi ailstrwythuro nifer o adrannau corfforaethol, gan gynnwys gofal cymdeithasol i oedolion. Bellach, mae'r adran yn cynnwys gofal cymdeithasol, iechyd, tai, a hamdden. Bydd hyn yn cryfhau'r trefniadau presennol ac yn rhoi'r

cyngor mewn sefyllfa gref gogyfer â gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn 2016. Tra bod yr adolygiad strwythurol hwn wedi mynd rhagddo, mae trefniadau dros dro yn parhau ar gyfer dau bennaeth gofal i oedolion. Daeth un swydd, sy'n cwmpasu gwasanaethau pobl hŷn, yn wag yn ddiweddar iawn, ac mae pennaeth dros dro ar gyfer y swydd arall, sy'n cynnwys cyfrifoldebau dros anableddau dysgu ac iechyd meddwl, wedi bod yn y swydd ers mis Awst 2014. Rhaid i'r cyngor sicrhau bod y trefniadau hyn yn dod yn fwy parhaol.

7.2. Mae trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethiant y cyngor yn gweithio'n effeithiol, ac mae gan y cyfarwyddwr statudol newydd weledigaeth glir ar gyfer blaenoriaethau'r cyngor, ac mae'n datblygu cynlluniau a strwythurau yn unol â nhw. Mae goruchwyliaeth effeithiol ar waith ar gyfer gwasanaethau plant ac oedolion, ac mae'r cyfarwyddwr statudol a chyfarwyddwr gwasanaethau plant yn gweithio ar y cyd gyda throsolwg clir dros gynlluniau darparu gwasanaethau.

7.3. Mae'r cyngor yn ymroi i gael gweithlu cymwys a sgilgar ac wedi buddsoddi drwy gydol y flwyddyn mewn cyfleoedd hyfforddiant a dysgu. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod y gweithlu'n barod ar gyfer gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae trosiant staff gwasanaethau cymdeithasol yn isel – gwasanaethau oedolion yn 1% a gwasanaethau plant yn 2%. Mewn gwasanaethau plant, dywedir bod y ganran uwch o weithwyr cymdeithasol sy'n gadael i'w briodoli i gyfleoedd dyrchafiad. O ganlyniad, mae cymysgedd sgiliau rhai timau'n gogwyddo tuag at fwy o weithwyr cymdeithasol amhrofiadol, ond mae'r cyngor yn edrych ar ffyrdd o unioni'r anghydbwysedd. Bydd hyn yn flaenoriaeth ar gyfer 2015-2016.

7.4. Mae trefniadau craffu'n parhau i weithio'n dda wrth i aelodau etholedig ddarparu trosolwg ac arweiniad clir. Rhydd swyddogion y cyngor wybodaeth dda i aelodau etholedig er mwyn ategu proses effeithiol o wneud penderfyniadau, fel bod gwasanaethau'n cynnig y gwerth gorau ac yn cael eu cyflenwi'n effeithiol i ddinasyddion Sir Gaerfyrddin. Mae'r cyngor yn parhau i ddangos ymrwymiad gwleidyddol cryf i wella gwasanaethau gofal cymdeithasol.

7.5. Mae trosolwg effeithiol yn parhau i sicrhau bod gwasanaethau a gomisiynir yn bodloni'r safonau gofynnol. Mae'r tîm comisiynu a chontractio yn parhau i weithio'n dda, gyda monitro a throsolwg cadarn o wasanaethau gofal oedolion. Mae'r cyngor yn parhau i weinyddu proses uwchraddio cwynion Llywodraeth Cymru yn dda, ac mae cydweithio da rhwng gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac AGGCC i sicrhau bod pobl yn derbyn gwasanaethau o

ansawdd da. Cynhaliwyd adolygiad o drefniadau comisiynu gofal cartref, a bydd hwn yn gwella safonau drwy osod gofynion i'r gweithlu a chynnig dewis gwell o wasanaethau.

7.6. Roedd adroddiad gwelliant blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y cyngor yn 2014 yn nodi bod y cyngor yn "cefnogi ei ddinasyddion yn dda". Mewn adolygiad a wnaed ganddynt i'r trefniadau llywodraethu sy'n cynorthwyo diogelwch plant, nodwyd bod "eu cryfder wrth ddiogelu plant wedi'i seilio ar y gwasanaeth addysg a phlant cydweithredol, a alluogodd i bolisïau gael eu cysoni ac i gydweithio agosach ddigwydd rhwng meysydd amrywiol y ddau wasanaeth hyn". Serch hynny, daeth i'r casgliad bod y cyngor yn ddiffygiol mewn rhai meysydd allweddol, yn benodol yn eu cyfrifoldebau corfforaethol. Mae'r cyngor wedi llunio cynllun gweithredu parthed hyn.

7.7. Mae cynllun cydweithredol iechyd a gofal cymdeithasol canolbarth a gorllewin Cymru yn gweithio'n dda ac yn adeiladu ar drefniadau gwaith amlasiantaethol effeithiol a oedd ar waith yn Sir Gaerfyrddin. Datblygir prosiectau arloesol ledled y rhanbarth a fydd yn cryfhau gwasanaethau ac yn sicrhau bod gwasanaethau'n datblygu'n gynaliadwy yn y dyfodol.

**Meysydd o gynnydd**

- Mae strwythur gofal cymdeithasol i oedolion, gofal cymdeithasol, iechyd, tai, a hamdden wedi rhoi'r cyngor mewn sefyllfa gref gogyfer â gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

- Trefniadau comisiynu cadarn

- Mae cynllun cydweithredol iechyd a gofal cymdeithasol canolbarth a gorllewin Cymru yn gwella ac yn datblygu dulliau cynaliadwy o weithio'n amlasiantaethol ac o ddatblygu dull cydgysylltiedig o gyflenwi gwasanaethau

**Meysydd i'w gwella**

- Gwella a datblygu lefel profiad gweithwyr cymdeithasol yng ngwasanaethau plant

- Mae angen gwella'r trosolwg corfforaethol ym maes diogelu plant